

DAETH LLUN a hanes y milwyr Cymreig yn yr Aifft ar eu ffordd tua Gwlad yr Addewid yn 1917 yn **Y Casglwr** diwethaf ag atgofion yn ôl i mi am fy nhad a fu gyda'r bechgyn ar y daith tua Jerusalm ddeng mlynedd a thrigain i eleni.

Am y cyfnod o Chwefror 1917 hyd Ionawr 1919 fe gadwodd ef, David Thomas o Harlech, ddyddlyfr yn nodi ei siwrneiau a'i helyntion. Fe'i cadwodd yn Saesneg a'i ysgrifennu yn anodd iawn i'w ddilyn ar adegau a llu o'r enwau lleoedd wedi peri llawer o ddryswch i mi o'r herwydd.

Fe adawodd Ivy House, Llechwedd, Harlech i ymuno â'r *South Wales Borderers* yn 1914 gan dreulio'r rhan fwyaf o'r rhyfel yn y Dwyrain Canol. A dyma nodion o ail ran ei ddyddiadur am 1917.

"Gadael porthladd Davenport Chwefror 12 a chyrraedd Gibraltar ar Chwefror 19 gan weld yr olygfa o Sbaen oddi yno'n hynod debyg i'r olwg ar fynyddoedd Moelwyn a Carnedd Ddafydd.

Ymlaen i Valetta ar Ynys Malta a synnu clywed y plant yn canu "Tipperary" yn Saesneg. Oddi yno i Salonica - dinas wedi ei rhannu'n ddwy, un ran yn dlawd a phur aflan a'r hanner arall gyda thai mawr a gerddi.

Oddi yno tua'r Aifft a chyrraedd Alexandria ar Ddydd Gŵyl Dewi - yr eildro iddo fod yn y ddinas hon. Ond wedi ysbaid fer dyma anelu am Kantara ar ochr ddwyreiniol Suez, ac hyd at Romani yn niffeithwch Seina. Tair wythnos anghysurus yno yn y gwres mawr a'r stormydd tywod, gan orfod ymolchi mewn dŵr hallt.

Oddi yno trwy Kasi Unis i fan a fedyddiwyd yn Regents Park, lle tywalltodd awyren Almaenig bamffledi trosom ac enwau'r rhai a gymerwyd yn garcharorion arnynt. Yma, uno a'r Bedwaredd Fataliwn Gymreig a thynnu tua Gaza.

Yn yr ymladd am Gaza daeth y tanciau i'r frwydr am y tro cyntaf ar Ebrill 18, a chael y teimlad iasoer o symud ymlaen bymtheg llath o ochr tanc cyn mynd yn ôl i'r "trenches". Wedi i'r Bumed Bataliwn Gymreig gyrraedd i'n hatgyfnerthu. Roedd "trenches" yr Almaenwyr bedwar can llath o'n blaenau."

* * *

YNA, mewn llythyr at ei briod, fe ddisgrifia David Thomas yr ymladd mawr a fu cyn cyrraedd Jerusalem. Ymlaen trwy Bersheba trwy fryniau Judea gan ennill Hebron a Bethlehem a Bethania a Chaersalem ei hun ar Ragfyr 9, 1917.

Ychydig iawn a welodd o'r Ddinas Sanctaidd ei hun a gorfod treulio'r Nadolig mewn gardd ar dywydd oer a gwlawog

MONA WILLIAMS a'r ddyrys daith

Tua Chaersalem

at ei bengliniau mewn mwd.

Yr ymladd a'r tywydd ofnadwy yn parhau am wythnosau yng ngwlad yr addewid nes cael tair wythnos o

egwyl - y bu'n rhaid ei ddefnyddio i ymarfer - ar Fynydd yr Olewydd ym mis Awst.

Ond cyn hyn cafodd ei glwyfo

gan dreulio o Fai hyd Orffennaf mewn ysbyty yn Belah. Ac ar ôl hyn, dim gwaredigaeth ond gorfod ymladd hyd at Ddamascus ac Aleppo cyn dychwelyd trwy Kantara i ddinas Alecsandria yn yr Aifft ac oddi yno i Port Said cyn symud tros y môr i Taranto ar Sadwrn, Ionawr 18.

A deng mis arall o'r rhyfel i fynd . . .

Y FFURETWR BACH a

Diawl y Wasg ar waith

GYDA'R blynyddoedd bûm yn rhyw ogr-droi'n feddyliol ac yn ystyried o ddifrif beth y mae pobl yn sgwennu yn ei gylch. Mi ddwedaf wrthyf, dydy pobl yn aml byth yn sgwennu am yr hyn sy'n llechu wrth fôn eu trwynau. Cymerer fater digrif a thrist diawl bach a mawr y Wasg. Fe all un llithriad o ran cynnwys llythyren mewn adroddiad greu giamocs neu hunllef.

Does ryfedd fod rhai darllenwyr yn mynd ati i ddiawlio'n uchel neu'n ddistaw y Golygydd o ganfod fod y diawl ar waith. Ond beth yw traddodiad yr ymadrodd 'Diawl y Wasg'? Fel hyn yr adroddir yn **Trysorfa y Plant** Hydref 1904, t.276:

'Gŵyr llawer ohonoch fod gwallau yr argraffydd yn cael eu priodoli i'r diafol, neu ryw brentis o'i eiddo . . . Yn yr adeg foreuol i'r gelfyddyd newydd o brintio, gelwid hi y Gelfyddyd Ddu . . . Yr oedd llawer yn ei hofni, ac yn dychryn rhagddi, fel un o weithredoedd Satan . . .

Bobl bach! ond pobl yw pobl onide?

'Yr oedd argraffydd yn Fenis o'r enw Aldus Manuttius, yr hwn a gymerodd fachgen bychan o negro i'w swyddfa . . . Aeth si allan yn fuan fod gan yr argraffydd ellyll du yn ei wasanaeth. Daeth y teimlad mor gryf yn erbyn yr argraffydd fel yr ofnai i'r bobl ymosod ar ei dŷ, a distrywio ei beiriant argraffu. I ragflaenu hyn, dangosodd y bachgen du i'r dorf, a dywedodd, 'Bydded hsybys i chwi bobl Fenis, imi, Aldus Manuttius, argraffydd i'r Eglwys Sanctaidd ddangos ichwi ar goedd ddiabol yr argraffydd. Gall pob un nad ydyw'n credu ei fod yn waed a chnawd ddyfod ymlaen a'i binshio.'

Câs. Gwrroneddol gâs ddwedwn i.

'Nid oes hanes a ddarfu i'r bobl wneud y prawf ai peidio, ond dywedir i'r bobl gael eu boddhau ac na ddarfu iddynt aflonyddu mwy ar y bachgen na'i feistr.'

Daw hyn a mi at graidd yr hyn yr amcenir ei argraffu arnoch fel darllenwyr. Os oes argraffu yn y

Gymraeg, a hynny wedi digwydd ers rhai blynyddoedd bellach, yna mae'n dilyn fod enghreifftiau bychain dinod neu rai mawrion clasurol ar gael o'r clwy' a berthyn i bob cysodwr blêr neu ddestlus fel ei gilydd, sef clwy' Diawl y Wasg. Bu imi gofnodi rhai:

Un o bapurau Penllyn, Meirion (1977):

'Dydd Sadwrn, Tachwedd 17eg' a **hithau'n Fis Medi**

'Dydd Sadwrn, 8fed Hydref' pryd y cyfeirir at 'Chwarae gwm hoci'. Beth,hefo'r dannedd? Profiad cnofaol go iawn debygwn i!

Hefyd yn yr **Herald Gymraeg**, 1977:

Taith Aelwyd yr Urdd i'r Ysgwrn, Trawsfynydd i goffâu 50 mlynedd marwolaeth Hedd Wyn, a dywedir, 'Byddant yn cyfarfod y cerddwyr eraill yn yr Ysgwrn, ac yna fe fydd cyfarfod arbennig i goffâu'r Bardd Cwsg.'

Nefar in Iwrop, mêt! Nefoedd wen, mae 'na ganrifoedd o wahaniaeth bid sicr.

Ac yn yr **Herald Gymraeg**, Ionawr 24ain, 1987, t.4 y mae un a elwir DAFYDD IAWN yn gofyn am farn y Cymry, a hynny ar ffurn apêl mewn llythyr. Ai Dafydd Iwan, frawd annwyl?

A dyna ble mae'r Saeson yn ein curo ni yn racs ribidires oherwydd mae ganddynt yn llythrennol filoedd o lyfrau wedi'u cyhoeddi ar destunau digon difudd yr olwg. Ond dyna fo mae eu ffydd hwynt gymaint yn fwy yn eu prynwyr a'u cefnogwyr. Aflwydd ninnau, mae hi'n hen bryd i ninnau fel cenedl ddeffro. Mae 'na gant a mil o enghreifftiau ar gael o'r Diawl yn y Wasg, yn cawlio gair ac adroddiad, yn cam-osod lluniau ac y mae 'na ddifyrrwch dibendraw yn y camgymeriadau hyn ond i rywun neu rywrai fynd ati i'w casglu a'u gosod ar ffurf llyfr.

Beth amdani? Oes rhywun neu rywrai yn rhywle yn meddu ar ddigon o ruddin a ffydd yn eu cyd-genedl i gyhoeddi llyfryn 'Y Diawl Bach a Mawr yn y Wasg'. Mae digon o eisiau un, neu a ydych yn fodlon ista yn ôl yng

nghlydwch eich cadair freichiau neu eich hamoc, i ddarllen llyfr atgofion arall, yr un o'r ychydig filoedd sydd gennym ar gael yn y Gymraeg? Choelïai fawr!

YN EISIAU

Bulleton of the Board of Celtic Studies: Cyf 12 (4), 13, 14, 17 (3,4), 18 (1,4), 19, 20 (1,2,3), 22 (1,4).

The Welsh Vocabulary of the Bangor District, O H Fynes-Clinton, Oxford University Press, 1913.

Studies in Cyfeiliog Welsh, A Sommerfelt, Oslo, 1925.

A Welsh Phonetic Reader, S Jones, University of London Press, 1926.

A Concise Comparative Celtic Grammar, H Lewis & H Pedersen, Göttingen, 1937.

Y Treigliadau a'u Cystrawen, T J Morgan. Gwasg Prifysgol Cymru, 1952.

Language and History in Early Britain, K H Jackson, University of Edinburgh Press, 1953.

Cysylltwch â: Dr Martin J Ball, 66 Manor Street, Heath, Caerdydd, CF4 3PX.

Ffôn: (0222) 626803 cartref, neu (0443) 405133, est 2582 gwaith.

AR WERTH

EVANS, George Eyre: Lampeter. Aberystwyth, 1905: £65

JONES, D Daven. A history of Kidwelly. Caerfyrddin, Spurrell, 1908: £30.

OWEN, Hugh (gol). Additional letters of the Morrisises of Anglesey. Llundain, Cymdeithas y Cymmrodorion, 1947-49. 2 gyfrol: £7.

CYMRU FU, yn cynnwys hanesion, traddodiadau ... Wrecsam, Hughes a'i Fab, 1862.

Y meingefn wedi cael niwed: £3.

HORSFALL-TURNER, E R. Walks and wanderings in County Cardigan (1902). Clawr meddal gyda un clawr yn rhydd a'r meingefn wedi cael niwed: £7.

Cludiant yn ychwanegol. Meurig Jones, Brynawelon, Swyddffynnon, Ystrad Meurig, Dyfed.